Enw _____

DARLLENWCH
Ioan 9: 1-41

ADNOD
ALLWEDDOL
Ioan 9: 5

# Astudiaeth 2 Dywediadau Iesu – Am Weld

**Awgrymiadau am Adnodau Eraill i'w Darllen**
Ioan 8: 12 Ioan 12: 44-46 Actau 26: 12-18 1 Pedr 2:9

Ydych chi wedi ceisio cerdded o gwmpas y tŷ yn y tywyllwch yn ystod toriad trydan? Byddai'n rhaid i chi deimlo'ch ffordd o gwmpas y dodrefn ac efallai'ch bod wedi baglu dros rywbeth. Cyn hir, byddech wedi sylweddoli nad oeddech yn gwybod yn iawn lle'r oeddech yn mynd a bod hyn yn beryglus. Mae pobl ddall a rhai sydd â nam ar eu golwg yn wynebu peryglon fel hyn trwy'r amser. Mae hyn yn wir hefyd am bobl nad ydyn nhw'n nabod yr Arglwydd Iesu. Dydyn nhw ddim yn gallu gweld lle maen nhw'n mynd yn eu bywydau a dydyn nhw ddim yn deall y peryglon sydd o'u blaen. Mae gan Iesu lawer o ddywediadau sy'n esbonio hyn.

**C** **Edrychwch ar yr adnodau isod o Efengyl Ioan a llanwch y bylchau.**




Roedd dynion yn _ _ _ _ y tywyllwch yn hytrach na'r goleuni, am fod eu gweithredoedd yn ddrwg.




Os nad yw pobl yn dilyn Iesu, maen nhw'n rhodio (cerdded) mewn _ _ _ _ _ _ _ _.




Nid yw pobl sy'n credu yn Iesu yn _ _ _ _ yn y tywyllwch.

Mae'r wyrth sydd i'w gweld yn y Darlleniad o'r Beibl yn ein helpu i ddeall y newid sy'n digwydd yn ein bywydau pan fyddwn ni'n cwrdd â'r Arglwydd Iesu.

# CHWILAIR

**Llanwch y bylchau. Mae'r geiriau yn y CHWILAIR. Maen nhw'n rhedeg yn ôl, ymlaen, i fyny, i lawr ac ar letraws. Rhowch gylch o'u cwmpas yn y Chwilair.**

1. Roedd y dyn wedi bod yn ddall ers iddo gael ei _ _ _.
2. Roedd y disgyblion yn meddwl ei fod yn ddall oherwydd ei _ _ _ _ _.
3. Dywedodd Iesu fod y _ _ _ yn dod pan na allai neb weithio.
4. Dywedodd Iesu mai ef oedd _ _ _ _ _ _ _ y byd.
5. Poerodd Iesu ar y llawr a gwneud _ _ _ _ o'r poeryn.
6. Defnyddiodd Iesu'r clai i iro _ _ _ _ _ _ _ y dyn.
7. Dywedodd Iesu wrth y dyn am fynd i bwll _ _ _ _ _ _.
8. Roedd rhaid i'r dyn _ _ _ _ _ _ _ yno.

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| O | LL | Y | G | A | I | D |
| S | I | D | O | CH | E | B |
| A | S | I | L | O | A | M |
| A | D | O | E | N | I | O |
| I | M | E | U | W | A | P |
| Y | S | O | N | E | L | O |
| A | E | N | I | S | C | R |

Roedd y dyn yn gallu gweld yn awr ond roedd hynny'n achosi problemau eraill iddo! Mae hynny'n digwydd yn aml pan fydd rhywun yn dod yn Gristion. Dydi'n holl broblemau ni ddim yn diflannu!

**C** **Darllenwch y brawddegau isod ac ysgrifennu pa un/rai o'r bobl hyn a'u dywedodd nhw.**

Rhieni  Cymdogion  Y dyn dall  Y Phariseaid  Yr Arglwydd Iesu

"Onid hwn yw'r dyn fyddai'n eistedd i gardota?" .....

"Myfi yw ef." .....

"Nid yw'r dyn hwn o Dduw. Nid yw'n cadw'r Saboth." .....

"Fe wyddom ei fod wedi'i eni'n ddall. Ond ni wyddom pwy a agorodd ei lygaid." .....

4

Doedd y dyn dall ddim yn deall llawer am Iesu ond roedd yn dysgu'n gyflym.

**C** **Llanwch y bylchau isod.**

Darllenwch adnod 11. Dywedodd mai _ _ _ oedd Iesu.
Darllenwch adnod 17. Dywedodd bod Iesu'n _ _ _ __ _ _ _.
Darllenwch adnod 38. Galwodd Iesu'n _ _ _ _ _ _ __.

3

Taflodd y Phariseaid y dyn oedd wedi'i wella allan o'r synagog. Ond daeth Iesu o hyd iddo.

**C** **Rhowch y geiriau isod yn y drefn y cawsant eu dweud trwy roi'r rhifau 1 – 4 arnynt.**

**Yr wyf yn credu, Arglwydd.**

**A wyt ti'n credu ym Mab y Dyn?**

**Yr wyt wedi'i weld ef. Yr un sy'n siarad â thi. Hwnnw yw ef."**

**Pwy yw ef, Syr?**

4

Yn ogystal ag agor ei lygaid fel y gallai weld yn gorfforol, roedd Iesu wedi agor ei ddeall fel ei fod yn gwybod pwy oedd yr Iesu a sut i gredu ynddo.

**C** **Ysgrifennwch eiriau Ioan 8: 12 sy'n debyg i'r Adnod Allweddol. Rhowch gylch o gwmpas y geiriau sy'n dweud beth y mae'n rhaid i ni ei wneud i gael "goleuni'r bywyd".**

2

Unwaith eto, roedd Iesu wedi honni pethau mawr. Profodd fod ganddo'r hawl i honni hynny trwy'r hyn a wnaeth i'r dyn a gafodd ei eni'n ddall.